# Dysgu Digidol:
# Canllaw i Rieni a Gofalwyr



## Yn cynnwys cyngor ar:

- ***Dysgu o Bell***
- ***Cymhwysedd Digidol***
- ***Diogelwch Ar-lein***
- ***Adnoddau***

Hwb

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

**Dechrau arni**

Mae'r feirws COVID-19 wedi golygu ein bod ni i gyd wedi gorfod gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau. Yn ystod yr amser hwn, mae ysgolion a lleoliadau ar gau i'r mwyafrif o blant, a bydd angen i'w dysgu barhau mewn ffordd wahanol. Y peth pwysicaf i'ch plant yw sicrhau eu bod yn gallu Cadw'n Ddiogel a Pharhau i Ddysgu.

Mae Hwb ar gael i bob ysgol yng Nghymru, i ddarparu amgylchedd ar-lein diogel, lle bydd athrawon yn gallu cyfathrebu â'ch plentyn, a lle bydd eich plentyn yn gallu cyfathrebu â'i ffrindiau a chyd-aelodau ei ddosbarth. Mae Hwb yn galluogi athro eich plentyn i anfon gwaith ato, ac yn galluogi eich plentyn i anfon gwaith yn ôl at ei athro ac iddo ddarparu adborth lle bo angen. Mae yna amrywiaeth eang o offer ar gael i'ch plentyn yn Hwb, a bydd yn cael ei dywys gan ei ysgol ynghylch pa offer i'w defnyddio ar gyfer tasgau penodol. Gellir gweld rhestr lawn o'r offer hyn, ynghyd â disgrifiad byr o bob un ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cyn dechrau arni, bydd angen mynediad at dri pheth ar eich plentyn, sef:

- Dyfais – Cyfrifiadur neu ddyfais symudol.
- Y rhyngrwyd – llwyfan ar y we yw Hwb.
- Ardal dawel/man tawel (lle a phan fo hynny'n bosibl) – bydd plant yn dysgu orau pan nad oes unrhyw beth yn tynnu eu sylw. Hefyd, efallai y bydd angen ffeiliau sain ar gyfer rhai offer, y mae angen eu clywed.

**Lles**

Mae yna nifer o bethau y byddwch efallai am feddwl amdanynt pan fydd eich plentyn yn defnyddio dyfeisiau digidol, a fydd yn cael effaith ar ei les:

**Aros yn Gysylltiedig**

Mae'n bwysig yn ystod yr amseroedd hyn bod llwyfannau digidol yn cael eu defnyddio i barhau â theimlad o gysylltiad rhwng yr ysgol, yr athrawon a'r disgyblion. Mae ysgolion yn lleoedd cymdeithasol ac mae eich plentyn wedi arfer rhyngweithio â llawer o bobl trwy gydol y dydd. Pan fydd hynny'n bosibl, efallai y bydd eich plentyn am ddefnyddio'r nodweddion yn Hwb i gyfathrebu â ffrindiau, cyd-aelodau ei ddosbarth ac athrawon.

**Amser o Flaen Sgrin**

Er y bydd yn rhaid i'ch plentyn ddefnyddio dyfeisiau digidol i gyrchu a chwblhau tasgau a osodir gan ei athro, mae'n bwysig ystyried faint o amser o flaen sgrin y mae'n ei gael, a lle bo hynny'n bosibl, sicrhau ei fod yn cymryd rhan yn y gweithgarwch corfforol a ganiateir.

**Dysgu o Bell – Cefnogi eich Plentyn**

**Cymorth i Rieni a Gofalwyr**

Mae ysgolion yn ddiolchgar i chi am gefnogi dysgu eich plentyn, all-lein neu ar-lein, ar yr adeg anodd hon. Yn ystod tymor yr haf, byddant yn gosod gwaith i'ch plentyn ei wneud, yn cadw mewn cysylltiad, ac yn darparu help ar hyd y ffordd. Bydd unrhyw anogaeth a chefnogaeth a gynigiwch yn ddefnyddiol iawn, ond ni ofynnir i chi fod yn athro.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth ar y ddolen yn egluro mwy am y modd y bydd gwefan Hwb, sef llwyfan dysgu Llywodraeth Cymru, yn helpu eich plentyn i ddysgu.

Hwb®

Cliciwch ar y deilsen i gael mynediad at yr wybodaeth.

**Dysgu o Bell trwy Hwb**

Gellir dod o hyd i gyngor, arweiniad a fideos ar sut i gael mynediad at ddysgu, sut i gefnogi dysgu, a sut i gyflwyno gwaith ar Hwb hefyd. Mae hyn yn cynnwys sut i fewngofnodi i gyfrif eich plentyn a sut i ddefnyddio rhai o'r offer sydd ar gael.

Cliciwch ar yr adrannau yn y tabl i ddod o hyd i'r atebion i'r cwestiynau cyffredin hyn:

| Adran | Cwestiynau Cyffredin |
|---|---|
| Croeso i Gymorth i Rieni a Gofalwyr | Cyflwyniad i Hwb |
| Cyrchu Dysgu | Sut y mae cael gafael ar dasgau penodedig fy mhlentyn? |
| | Beth yw Hwb a sut y gallaf fewngofnodi? |
| | Sut y gallaf gael gafael ar offer penodol neu eu lawrlwytho? |
| Cefnogi Dysgu | Ble y gallaf ddod o hyd i weithgareddau ychwanegol i'm plant eu gwneud? |
| | Sut y mae cadw fy mhlentyn yn ddiogel wrth weithio ar-lein? |
| Cyflwyno Gwaith | Sut y mae anfon gwaith yn ôl at yr athro? |

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

**Cymhwysedd Digidol**

Cymhwysedd Digidol yw'r set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n galluogi unigolion i ddefnyddio technolegau a systemau. Cliciwch ar y dolenni canlynol i gael rhagor o wybodaeth.

Cliciwch ar y deilsen i ddarganfod rhagor am y Fframwaith Cymhwysedd Digidol



Cliciwch ar y deilsen i ddarganfod rhagor am y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

**Meysydd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol**

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn nodi pedwar maes i'ch plentyn ddatblygu ei wybodaeth, ei sgiliau a'i agweddau:

| **Dinasyddiaeth** | **Rhyngweithio a Chydweithio** |
|---|---|
| • Hunaniaeth, delwedd ac enw da.<br>• Iechyd a Lles.<br>• Hawliau digidol, trwyddedu a pherchnogaeth.<br>• Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio.<br><br>Mae'r llinyn hwn yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd digidol o'u cwmpas sy'n newid yn gyflym. | • Cyfathrebu.<br>• Cydweithio.<br>• Storio a Rhannu.<br><br>Mae'r llinyn hwn yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio offer digidol i gyfathrebu, gweithio gyda'i gilydd a storio gwybodaeth. |
| **Cynhyrchu**<br><br>• Datrys problemau a modelu.<br>• Llythrennedd data a gwybodaeth.<br><br>Mae'r llinyn hwn yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o offer digidol er mwyn creu a llunio darnau o waith gan ddefnyddio nodweddion gwahanol. | **Data a Meddwl Cyfrifiadurol**<br><br>• Cynllunio, dewis ffynonellau a chwilio.<br>• Creu.<br>• Gwerthuso a gwella.<br><br>Mae'r llinyn hwn yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddefnyddio gwybodaeth mewn ffyrdd gwahanol i ddod o hyd i atebion a datrys problemau. |

| Meysydd yn y Fframwaith Cymhwysedd Digidol | |
|---|---|
| **Dinasyddiaeth** | Cliciwch yma i ddarganfod rhagor am y modd y mae dinasyddiaeth yn chwarae rhan bwysig o ran sgiliau digidol eich plentyn. |
| **Rhyngweithio a Chydweithio** | Cliciwch yma i ddarganfod rhagor am y modd y mae rhyngweithio a chydweithio yn chwarae rhan bwysig o ran sgiliau digidol eich plentyn. |
| **Cynhyrchu** | Cliciwch yma i ddarganfod rhagor am y modd y mae cynhyrchu yn chwarae rhan bwysig o ran sgiliau digidol eich plentyn. |
| **Data a meddwl cyfrifiadurol** | Cliciwch yma i ddarganfod rhagor am y modd y mae data a meddwl cyfrifiadurol yn chwarae rhan bwysig o ran sgiliau digidol eich plentyn. |

**Diogelwch Ar-lein**

Efallai fod y profiad o reoli gwaith dysgu gartref eich plentyn yn newydd i chi. Rydym am eich sicrhau bod digon o adnoddau a chanllawiau ar gael yn y parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb i'ch helpu chi a'ch plentyn i gadw'n ddiogel ar-lein.
Mae'r canllaw hwn yn archwilio rhai ystyriaethau o ran diogelwch ar-lein, ac yn eich cyfeirio at adnoddau addysg defnyddiol a all eich helpu i ddysgu gyda'ch plentyn.

| Cliciwch ar yr ardal i weld canllawiau ar gyfer yr agwedd honno ar ddiogelwch ar-lein: | | |
|---|---|---|
| Cydsyniad, preifatrwydd a data | Chwarae gemau | Cynnwys anghyfreithlon a sarhaus |
| Ffrydio byw | Iechyd a lles meddwl | Camwybodaeth |
| Bwlio ar-lein | Casineb ar-lein | Perthnasoedd ar-lein |
| Pornograffi | Radicaleiddio ac eithafiaeth | Amser o flaen sgrin |
| Rhannu delweddau | Cyfryngau cymdeithasol | Rhagor o help a chymorth |

Fel arall, gallwch eu gweld i gyd yma: Hwb®

| Gellir dod o hyd i ragor o adnoddau a gweithgareddau sy'n briodol i oedran y disgyblion trwy glicio ar yr ardal: | | |
|---|---|---|
| Tanysgrifio i'r Cylchlythyr Diogelwch Ar-lein | 4-5 oed | 5-7 oed |
| 8-10 oed | 11-13 oed | 14 oed neu'n hŷn |

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

**Adnoddau**

Hwb yw'r llwyfan digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru. Mae Hwb yn rhoi mynediad i'w ddefnyddwyr at amrywiaeth o offer ac adnoddau digidol diogel.

**Meddalwedd y Gellir ei Lawrlwytho**

Gall athrawon a dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru hefyd lawrlwytho a gosod yr offer Microsoft Office diweddaraf, gan gynnwys Word, Excel a PowerPoint, yn ogystal â Minecraft: Education Edition, heb unrhyw gost, ar hyd at bymtheg o ddyfeisiau trwy Hwb.

Cliciwch ar y deilsen i lawrlwytho Microsoft Office a Minecraft: Education Edition am ddim.

Mae'r offer canlynol ar gael ar-lein trwy fewngofnodi i Hwb:

| Llwyfan | Diben – Offeryn | Graffigyn |
|---|---|---|
| Office 365 | Prosesu Geiriau – Word<br>Taenlenni – Excel<br>Cyflwyniadau – PowerPoint<br>Cydweithio – Teams/Cloud<br>Cyfathrebu – Outlook (e-bost)/Teams | |
| Minecraft Education Edition | Llwyfan dysgu sy'n seiliedig ar gêm, sy'n hyrwyddo creadigrwydd, cydweithio a datrys problemau mewn amgylchedd digidol ymdrwythol. | |
| G Suite for Education | Prosesu Geiriau – Docs<br>Taenlenni – Sheets<br>Cyflwyniadau – Slides<br>Cydweithio – Drive/Groups<br>Cyfathrebu – Sites/Meet | |
| Just2easy | Cyfathrebu/Cydweithio – j2e5<br>Storio/Rhannu – j2launch<br>Rhaglenni Office – j2office<br>Llwyfan y Blynyddoedd Cynnar/y Cyfnod Sylfaen – JiT5<br>Cyfathrebu – j2webby | |
| Flipgrid | Gall athrawon, dysgwyr, rhieni a gofalwyr recordio a rhannu fideos/ffeiliau sain byr. | |
| Adobe Spark | Offeryn ar-lein sy'n galluogi plant i greu graffeg, fideos byr a straeon gwe un dudalen. | |
| Encyclopedia Britannica | Gwyddoniadur gwybodaeth gyffredinol ar-lein. | |

**Cymorth ar gyfer Rhieni a Gofalwyr**

Mae Hwb yn cynnig llyfrgell fawr o adnoddau digidol i athrawon. Mae'r adnoddau hyn hefyd ar gael i chi rieni a gofalwyr, ac efallai y byddant o gymorth wrth i chi gefnogi dysgu eich plentyn yn ystod y cyfnod hwn.

Hwb® Cliciwch ar y deilsen i weld yr adnoddau hyn.

Yn ogystal â'r fideos cymorth hyn, mae Canolfan Cymorth gynhwysfawr ar gael ar Hwb, ac er bod hon wedi'i hanelu'n bennaf at athrawon, efallai y bydd yn rhoi i chi'r cymorth y mae ar eich plentyn a chithau ei angen mewn perthynas â chymhwysiad penodol ar Hwb.

| Cymorth Cais | |
|---|---|
| Just2easy Create · Share · Learn | Office 365 |
| G Suite For Education | Sp |

Cliciwch ar y deilsen i gyrchu'r Ganolfan Cymorth ar gyfer y cymwysiadau hyn.